# 11. Tra Gwyliai’r Bugeiliaid

Yn ystod y gwasanaeth Nadolig byddwn yn canolbwyntio ar hanes y geni o safbwynt y bugeiliaid. Byddwn yn meddwl yn arbennig am ryfeddod y digwyddiad, nid yn unig ryfeddod y neges a gawson nhw, ond rhyfeddod y ffaith bod y neges wedi dod iddyn nhw, o bawb, yn y lle cyntaf. Bydd hyn yn ein harwain i sylweddoli bod Iesu wedi dod er mwyn bod yn Waredwr i bobl o bob cefndir.

Gallwch ddewis o’r emynau canlynol yn ogystal â charolau traddodiadol lle nodir ‘Emyn’:

> ‘Dos dywed ar y mynydd’, *Clychau’r Nadolig* neu ‘Gwaedda ar y mynydd’, *Clap a Chân i Dduw*.
>
> ‘Cân yr Angel’, *Mwy o Glap a Chân*.
>
> ‘Pan oedd sêr uwchben’, *Mwy o Glap a Chân*.
>
> ‘Croeso i’r Iesu’, *Clychau’r Nadolig*.
>
> ‘Gwelwch E’n gorwedd ar ei wely gwair’, *Clychau’r Nadolig* neu ‘Calypso’r Nadolig’, *Mwy o Glap a Chân*.
>
> ‘Angylion Glân a’u Gloria’, *Mwy o Glap a Chân*.
>
> ‘Bolero Nadolig’, *Clychau’r Nadolig*.
>
> ‘Carol o Sbaen’, *Clychau’r Nadolig*.

Arweinydd 1: Bore da a chroeso i bob un ohonoch chi yma. Rydan ni wedi dod at ein gilydd i ddathlu gŵyl arbennig iawn, ac i gofio am eni Iesu Grist ein Gwaredwr. Gobeithio y byddwch yn mwynhau addoli gyda ni ac y cewch eich gwefreiddio unwaith eto wrth i ni feddwl pam y cafodd Iesu Grist ei eni. Gadewch i ni droi at Dduw ar ddechrau’r gwasanaeth.

Gweddi: ‘Ein Tad yn y nefoedd, diolchwn am y cyfle hwn i droi atat i’th gydnabod di’n Frenin ac yn Arglwydd. Gweddïwn am gymorth i ganolbwyntio arnat ti yng nghanol gŵyl sydd wedi mynd yn brysur a swnllyd a diystyr i nifer o bobl. Helpa ni i gofio’r rheswm pam y daethon ni at ein gilydd, sef i ddathlu geni dy fab, Iesu Grist, a ddaeth i fod yn waredwr inni. Helpa ni, wrth rannu anrhegion a chardiau yn ystod yr ŵyl, i rannu llawenydd y newyddion da am eni Iesu Grist yr un pryd. Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist.’ Amen.

Emyn

Arweinydd 2: Yn ystod y gwasanaeth byddwn yn meddwl am y rhodd arbennig a roddodd Duw i ni, sef ei fab, Iesu Grist. Gwyddai sut y byddai'n cael ei drin gan bobl ym mhob oes. Gwyddai hefyd y byddai Iesu'n gorfod marw mewn ffordd ofnadwy yn ein lle ni. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei anghofio'n aml wrth i ni ddathlu'r ŵyl. Byddwn yn anghofio hefyd bod Duw wedi addo ei fab inni, ymhell cyn ei eni. Gwrandewch ar y broffwydoliaeth a gawson ni yn llyfr Eseia yn yr Hen Destament.

Darlleniad: Eseia 9:6–7

Arweinydd 3: Wrth gwrs fe ddaeth proffwydoliaeth Eseia yn wir, yn union fel pob un o addewidion Duw. Dyma'r hanes yn ôl y bugeiliaid.

Darlleniad neu ddrama: Wedi ei seilio ar y darn o'r Ysgrythur: Luc 2:8 – 20.

[*Defnyddiwch amlinelliad y meim byrfyfyr 'Tra Gwyliai y Bugeiliaid' i gynllunio meim i gyd-fynd â'r darlleniad neu'r ddrama, gyda'r plant eu hunain yn adrodd yr hanes trwy eu 'cymeriadau'. Cofiwch bwysleisio syndod y bugeiliaid ynglŷn â'r digwyddiad a'r ymdeimlad o anrhydedd wrth gael eu dewis i dderbyn y newyddion.*]

[*Defnyddiwch daflunydd i gyflwyno'r prif bwyntiau ac unrhyw restr wrth ichi drafod y Geni.*]

Sgwrs/anerchiad: Gofynnwch y cwestiwn, 'Pe bai Brenin ar fin cael ei eni, pwy dybiwch chi fyddai'n cael neges/newyddion amdano?'

Pwy fel arfer fyddai'n derbyn neges o'r fath yn ein hoes ni: brenhinoedd eraill, tywysogion, Prif Weinidog, pobl bwysig, ac yn y blaen. Fe wyddon ni fod hynny wedi digwydd yn achos geni Iesu Grist pan gafodd y gwŷr doeth yr arwydd ar ffurf seren. Roedden nhw'n bobl bwysig, yn alluog ac yn ddysgedig, ac yn uchel eu parch yn y gymdeithas.

Ond nid y doethion oedd yr unig rai i dderbyn y neges fod yna faban arbennig wedi'i eni. Rydan ni eisoes wedi clywed sut y bu i'r bugeiliaid, pobl ddigon cyffredin, gael ymweliad gan angylion yn cyhoeddi fod Gwaredwr wedi'i eni ym Methlehem. Roedd y baban hwn yn fwy na Brenin – roedd o'n ffrind i bawb a thrwyddo ef gall pawb fod yn ffrindiau â Duw. Fe brofodd y ffaith i angylion ymddangos i'r bugeiliaid fod Iesu'n wahanol i frenhinoedd eraill sy'n cymysgu â'u mathau nhw eu hunain o bobl yn unig. Dangosodd ei fod wedi dod yn ffrind ac yn Waredwr i bawb a fyddai'n ei garu a'i dderbyn fel y gwnaeth y bugeiliaid.

Beth mae hynny'n ei olygu i ni fel unigolion wrth i ni ddysgu am eni Iesu?

Does dim rhaid i ni fod yn glyfar, pwysig cyfoethog na del i dderbyn y newyddion da am eni Iesu.

Mae Iesu'n ffrind i bawb.

Gwrandewch ar eiriau Iesu ei hun wrth ddechrau ar ei weinidogaeth, a meddyliwch cymaint sydd gennyn ni i'w ddathlu ac i ddiolch amdano y Nadolig hwn.

Darlleniad: Luc 4:18–19

Cân gan y plant.

Cyd lefaru: 'Chwi Fugeiliaid Mwyn', *Clychau'r Nadolig*.

[*Rhannwch y plant yn ddau grŵp i adrodd y penillion bob yn ail i bwysleisio'r holi a'r ateb*]

Gweddïau: 'Diolch am eni Iesu' [*a ysgrifennwyd gan y plant*]

Emyn

Y Fendith

**DIWEDD**